Cynhaliwyd Stodin ar faes Sioe Meirionydd a Sioe Sir Fôn gan ganolbwyntio ar ddatblygu gyfra gyda YGC, a bod YGC yn cynnig gwasanaethau dwyieithog i'n holl gleientiaid. Cynhaliwyd y Stodin yn Sioe Môn mewn partneriaeth gyda Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Drwy raeadru negeseuon dyddiol ar gyfryngau Traffig Cymru, yn

ogystal a YGC a Chyngor Gwynedd, roedd posib cyrraedd cynulleidfia eang o bobl ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Yn ogystal, bu i YGC gefnogi digwyddiad dathlu daucanmlwyddiant Pont Grog y Borth. Bu i staff YGC gynnal gweithgareddau i blant a phobl ifanc ddysgu am beirianeg yng Nghanolfan Telford Porthaethwy ar dydd Sadwrn y 7fed o Awst.

2. Beth arall sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg?

(e.e. addysg, adnoddau, teuluoedd, hyrwyddo defnydd o wasanaeth drwy'r Gymraeg)

Hyrwyddo Swyddi, Gyrfaoedd a Gwasanaethau - Mae'r Adran yn cefnogi ffeiriau swyddi a digwyddiadau a rydym yn sicrhau ein bod yn mynychu'r digwyddiadau hyn i ymgysylltu gyda pobl Gwynedd a'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae'r gwasanaeth yn cynnig swyddi arbenigol mewn sawl maes ac mae digwyddiadau o'r fath yn rhoi cyfle i sgwrs gyda pobl wyneb yn wyneb, gan drafod y buddion o weithio i'r Cyngor fel gweithle Cymraeg a'r math o wasanaethau mae'r Adran yn ei gynnig yn ddwyieithog i'r cwsmer.

Dyma enghreifftiau o'r math o ddigwyddiadau dan sylw: -

- Cefnogi ffeiriau Swyddi Gwaith Gwynedd ar draws y Sir – Abermaw, Bangor a Porthmadog,
- Mynychu digwyddiad gyrfaoedd yn M-Sparc, ac ymuno gyda Fforwm Niwclear Cymru fel partner.

Digwyddiadau Ysgolion

Ers eu sefydlu, mae'r Tîm Tacluso wedi bod yn rhagweithiol wrth drefnu digwyddiadau ar y cyd â'r Tîm Ailgylchu o fewn Adran yr Amgylchedd, er mwyn annog plant a phobl ifanc ledled y sir i gymryd diddordeb mewn amrywiaeth o faterion amgylcheddol. Mae'n gyfle hefyd i hybu gwaith yr adran yn ogystal â'r iaith Gymraeg. Yn ddiweddar, fe wnaethon gynnal cyfres o sesiynau addysgol a gweithgareddau ymarferol mewn ysgolion a digwyddiadau cymunedol. Byddwn yn cario ymlaen gyda'r math yma o waith i'r dyfodol ac yn manteisio ar bob cyfle i gyd-weithio.

Gwelir isod rai enghreifftiau o'r gwaith a gyflawnwyd, gyda lluniau o'r digwyddiadau wedi'u cynnwys yn Atodiad 1:

- Mae'r Tîm Tacluso wedi bod yn cydweithio â disgyblion Ysgol Penybryn a Heddlu Gogledd Cymru dros y misoedd diwethaf i fynd i'r afael â phroblemau amgylcheddol lleol. Yn ystod sesiynau gyda'r disgyblion, nodwyd mai ysbwriel a baw cŵn oedd eu prif bryderon. Dyluniodd y disgyblion arwyddion yn y dosbarth, ac ar 7 Gorffennaf bu'r Tîm Tacluso a'r plant yn eu gosod mewn mannau allweddol o amgylch Bethesda. Yn ogystal, cynhaliwyd sesiwn codi sbwriel yn yr ardal.
- Cynhaliwyd diwrnod tacluso yn yr ardd gymunedol yng Ngharmel ar y cyd ag aelodau lleol o'r gymuned a disgyblion yr ysgol leol
- Cydweithio â Heddlu Gogledd Cymru, Adra a Cadw Cymru'n Daclus ar brosiect i drawsnewid yr ardd gymunedol ym Morfa Cadfan, Tywyn
- Cefnogi disgyblion blwyddyn 11 oedd yn paratoi i symud ymlaen i'r chweched dosbarth i ymgymryd â phrosiect i wella'r ardd gymunedol fel rhan o'u cymhwyster

Dug Caeredin. Roedd y gwaith yn cynnwys adeiladu mannau tyfu llysiau gyda'r bwriad o ddefnyddio'r cynnyrch i baratoi bwyd yn y ganolfan ieuencid.

Gweler Atodiad 1 am luniau o'r digwyddiadau hyn.

3. Ydy datblygiad technoleg wedi amharu ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg neu wedi rhoi mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? Os yn berthnasol rhwch enghraifft.

Sut ydych chi'n sicrhau nad yw datblygiad technoleg yn effeithio ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

Mae rhai o systemau rheoli asedau'r adran ar gael yn Saesneg yn unig, sy'n amharu ar allu staff i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd yn eu gwaith. Yr ydym yn adolygu ein systemau ar hyn o bryd gan adnabod cyfleoedd lle gallwn newid elfennau o'r system i'r Gymraeg.

Enghraifft o hyn yw system asedau goleuo stryd lle bydd linc penodol gyda system mewnol FFOS.


4. Sut ydych chi'n cadw cofnod o'r bobl sy'n defnyddio eich gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg? Allwch chi rannu data perthnasol?

Mae ymholiadau cyffredinol yr Adran yn cael eu cofnodi yn system safonol mewnol FFOS y Cyngor. Yr ydym hefyd yn derbyn gohebiaeth drwy gyfrwng Gymraeg yn unig dros e-bost yn benodol daw hyn gan Cyngorau Cymuned a Thref.

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf derbyniodd yr Adran gyfanswm o 5,988 o ymholiadau drwy system FFOS y Cyngor gyda 3,144 (52.5%) yn cael eu cyflwyno yn y Gymraeg a 2,844 (47.5%) yn cael eu cyflwyno yn Saesneg. Mae hyn yn dangos y galw sylweddol am wasanaethau cyfrwng Cymraeg ac yn amlygu'r pwysigrwydd i ddarparu gwasanaethau dwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ganolog.

Rydym fel adran yn gweithio ar system i gofnodi ymholiadau eraill gan ddefnyddwyr ein gwasanaeth fel y gallwn adrodd ar y data perthnasol yma i'r pwyllgor nesaf.

5. Beth yw sgiliau iaith eich staff?



- Mae'r Adran yn cyflogi 443 o staff.
- Mae 277 o'r staff wedi cwblhau'r Hunanasesiad iaith sef 62.5%.
- Ar gyfer 147 pellach o'r gweithlu (rheng flaen), mae'r rheolwyr llinell wedi cwblhau asesiad ar eu rhan.
- Mae hyn yn gadael 19 sydd heb asesiad iaith o gwbl.
- Mae 95.7% o'r staff yn cyrraedd dynodiad iaith y swydd.

Rydym yn cefnogi ein staff i fynychu hyfforddiant perthnasol, gweler isod gofnod o'r niferoedd sydd wedi dilyn hyfforddiant eleni.

2 x Cwrs Mynediad 2

2 x Cwrs Adolygu Mynediad 2 – Dysgu Cymru

2 x Cwrs Uwch 1 – Llety Arall, Caernarfon

6. Rhowch enghreifftiau o unrhyw rwystrau, cwynion a chanmoliaeth sy'n gysylltiedig gyda darparu a hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Arwyddion Ffordd (Contractwyr Allanol)-

Cafwyd eto eleni sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd a aelodau lleol ynghylch arwyddion a osodwyd gan gontractwr allanol a gyflogwyd gan yr adran i ymgymryd â gwaith ar ein rhan, gan eu bod yn uniaith Saesneg. Cafodd y mater ei ddatrys yn brydlon, a chymerwyd camau i sicrhau bod arwyddion priodol yn cael eu gosod. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y gwaith a wnaed hyd yma drwy gynnal sesiynau briffio gyda chontractwyr i atgyfnerthu gofynion y Gymraeg o fewn ein contractau a sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â safonau a disgwyliadau'r Cyngor.

Mae'r Gwasanaeth YGC gyda achrediad Buddsoddwyr Mewn Pobl (BMP)

Adnewyddwyd yr achrediad yma y llynedd am y 3ydd cyfnod. Cynhaliwyd holl gamau'r achrediad gyda BMP o'r cyfarfod cyntaf i dderbyn y dystysgrif adnewyddu drwy gyfrwng y

Gymraeg. Eleni rydym wedi cwrdd a'n asesydd newydd sydd yn frwdfrydig am gynnal ein cyfarfodydd cynnydd ac asesiad nesaf yn Gymraeg.

Mynychu Digwyddiadau - Roedd yn amlwg o'r adborth a gawsom yn Sioe Sir Fôn ac yn y digwyddiadau gyrfaedd eleni bod gwerthfawrogiad mawr, nid yn unig i'r gwasanaeth a gyflwynir i'n trigolion, ond hefyd i ddefnydd a'r hyrwyddo o'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn. Roedd hyn yn galonogol ac yn cadarnhau ein bod ar y llwybr cywir yn ein hagwedd at yr iaith.

Adroddiad yr adran i Bwyllgor Iaith 2025: [Adroddiad yr Adran Priffyrdd Peirianeg ac YGC ar weithrediad y Polisi Iaith a chyfraniad tuag at w.pdf](#)

Atodiad 1:

Arwyddion Uniaith Gymraeg



Tîm YGC yn Sioe Meirionnydd 2026



Ymgyrch Ymwybyddiaeth Amgylcheddol Ysgol Penybryn



Prosiect Gardd Gymunedol Penrallt



Diwrnod Tacluso Gardd Gymunedol Carmel



Adroddiad adran Cyllid ar weithrediad y Polisi Iaith a chyfraniad tuag at wireddu Strategaeth Iaith Gymraeg 2023 - 2033

Dyddiad	5 Hydref 2026
Teitl	Cynllun Hybu'r Gymraeg – Adran Gyllid
Pwrpas	Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran Gyllid i hybu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg
Awdur	Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid

1. Pa bolisiâu a chynlluniau sydd mewn lle o fewn eich adran er mwyn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith? Nodwch y maes blaenoriaeth (blynyddoedd cynnar, dysgu, gwaith a gwasanaeth, y gymuned neu ymchwil a thechnoleg)

Dymunwn nodi bod yr Adroddiad hwn yn cwmpasu gweithgareddau'r Adran Gyllid a'r Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth. Fodd bynnag, ers mis Ebrill eleni, mae Technoleg Gwybodaeth wedi trosglwyddo i'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol fel rhan o newidiadau i strwythur y Cyngor.

Prosiectau yng nghynllun y Cyngor

Drwy weithredu prosiectau'r Cynllun Digidol, mae'r Adran yn ceisio sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn rhan annatod o ddatblygiadau technolegol newydd. Yn ystod 2025/26, bu gwaith yn mynd rhagddo ar nifer o brosiectau digidol strategol, gan gynnwys ail-ddylunio gwefan gorfforaethol y Cyngor, cyflwyno system Adnoddau Dynol a Chyflogau newydd (iTrent), datblygu defnydd y llwyfan Microsoft 365, a gwerthuso'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial megis Microsoft Copilot. Roedd y prosiectau hyn yn gyfle i sicrhau bod gofynion y Gymraeg yn cael eu hymgorffori o'r cychwyn cyntaf mewn systemau, gwasanaethau a llwyfannau digidol newydd.

Yn ogystal, mae'r Adran wedi parhau i ddatblygu seilwaith a gwasanaethau digidol y Cyngor, gan gynnwys uwchraddio systemau cyfathrebu, cryfhau gwytnwch seibr, datblygu trefniadau rheoli data a chyflwyno technolegau newydd. Wrth wneud hynny, rhoddwyd ystyriaeth barhaus i'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod gwasanaethau digidol yn hygyrch ac yn galluogi staff a thrigolion i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol ac yn hwylus.

Deallusrwydd Artiffisial (Copilot). Meysydd blaenoriaeth: Ymchwil a Thechnoleg; Gwaith a Gwasanaeth

Yn ystod 2025/26, cwblhawyd gwaith asesu addasrwydd Microsoft Copilot a datblygwyd rhaglen waith ar gyfer y camau nesaf. Mae'r Adran yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod technolegau deallusrwydd artiffisial newydd yn cefnogi'r Gymraeg ac yn cynyddu cyfleoedd i staff ddefnyddio'r iaith yn eu gwaith dyddiol. Mae hyn yn adlewyrchu egwyddor ehangach yr Adran o ymgorffori gofynion ieithyddol mewn datblygiadau digidol newydd o'r cychwyn cyntaf.

Prosiectau a chynlluniau eraill

Defnydd dydd-i-ddydd. Meysydd blaenoriaeth: Gwaith a Gwasanaethau

Balchder yw nodi fod yr Adran Gyllid gyfan yn gweithredu'n ddyddiol drwy gyfrwng y Gymraeg. Credwn fod y diwylliant hwn wedi cyfrannu'n sylweddol at ein gallu i ddenu a phenodi staff newydd, gan greu gweithle lle mae'r Gymraeg yn iaith naturiol yn y gwaith. Mae tystiolaeth fod hyn wedi cynyddu hyder staff newydd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd ac wedi cryfhau eu sgiliau iaith dros amser.

Archwilio Cymru. Meysydd blaenoriaeth: Gwaith a Gwasanaethau

Mae cyfarfodydd a thrafodaethau rhwng swyddogion yr Adran a swyddogion Archwilio Cymru yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym o'r farn bod hyn wedi cyfrannu at gryfhau trefniadau'r Gymraeg o fewn Archwilio Cymru ac wedi darparu cyfleoedd gwerthfawr i'w staff ddatblygu eu sgiliau iaith a gwneud defnydd ehangach o'r Gymraeg yn eu gwaith proffesiynol.

Hyfforddiant. Meysydd blaenoriaeth: Dysgu: Gwaith a Gwasanaethau

Mae Adran Gyllid Cyngor Gwynedd yn un o'r ychydig gyflogwyr sy'n cynnig hyfforddiant proffesiynol ym maes cyllid a thechnoleg ddigidol drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn darparu lleoliadau cyfrwng Cymraeg i Brentisiaid a Hyfforddeion o fewn y Gwasanaeth Cyfrifeg, y Gwasanaethau Trethi a Budd-daliadau, y Gwasanaeth Pensiwn a'r Gwasanaethau Digidol.

Yn ogystal â'r hyfforddeion a'r prentisiaid a benodwyd mewn blynyddoedd blaenorol, penodwyd hyfforddeion a phrentisiaid newydd yn 2026, fydd yn datblygu eu gyrfaedd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cyfrannu at feithrin y genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol Cymraeg eu hiaith.

System Rheoli'r Sefydliad. Meysydd blaenoriaeth: Ymchwil a Thechnoleg: Gwaith a Gwasanaethau

Datblygwyd manyleb gynhwysfawr yn 2025 ar gyfer cyflwyno system newydd Adnoddau Dynol a Chyflogau'r Cyngor (iTrent). Roedd y fanyleb yn cynnwys gofynion ieithyddol penodol er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o brofiad y defnyddiwr, gan fynd y tu hwnt i gydymffurfiaeth sylfaenol â'r Safonau Iaith. Yn dilyn proses gaffael lwyddiannus, mae'r prosiect yn symud yn ei flaen gyda'r Gymraeg yn ystyriaeth ganolog wrth ddatblygu a gweithredu'r system.

System Treth Cyngor. Meysydd blaenoriaeth: Ymchwil a Thechnoleg: Gwaith a Gwasanaethau

Yn ogystal â system iTrent, mae'r Adran hefyd yn cyflwyno system GovTech i gefnogi'r Uned Trethi. Mae cydweithio agos wedi bod rhwng yr Adran a GovTech wrth ddatblygu a

gweithredu'r system. Drwy ein dylanwad fel defnyddiwr gweithredol, rydym wedi parhau i bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried o'r cam dylunio a datblygu cyntaf un. Mae hyn wedi cynnwys annog datblygu rhyngwynebau Cymraeg, templedi dwyieithog a gwell ymarfer o ran cefnogi defnyddwyr Cymraeg eu hiaith.

Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg mewn systemau digidol arbenigol ac yn sicrhau bod technoleg a ddefnyddir gan awdurdodau lleol yn galluogi darparu gwasanaethau Cymraeg o safon uchel i drigolion ein sir.

System ledjer newydd. Meysydd blaenoriaeth: Ymchwil a Thechnoleg: Gwaith a Gwasanaethau

Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn gwneud paratodau ar gyfer cyflwyno system ledjer newydd, gan fod cyfnod defnyddioldeb y system bresennol yn dod i ben. Bydd y system newydd yn cael ei ddarparu gan ddarparwr ein system ledjer bresennol, bydd manyleb fanwl yn cael ei pharatoi ar gyfer y system newydd gan gynnwys gofynion ieithyddol penodol gyda'r nod o hyrwyddo'r Gymraeg y tu hwnt i ofynion statudol y Safonau Iaith. Mae hyn yn cynnwys ystyriaethau ynghylch adroddiadau, hyfforddiant a dogfennaeth. Mae trafodaethau cychwynnol eisoes ar y gweill, gyda'r bwriad o sicrhau bod y Gymraeg wedi'i gwreiddio yn y system o'r cychwyn cyntaf.

Gwasanaeth Dysgu Digidol. Meysydd blaenoriaeth: Dysgu, Ymchwil a Thechnoleg
Mae'r Gwasanaeth Dysgu Digidol yn parhau i gefnogi ysgolion Gwynedd wrth ddatblygu a defnyddio technoleg ddigidol i gefnogi addysgu a dysgu. Yn ystod 2025/26, bu'r gwasanaeth yn arwain a chefnogi nifer o brosiectau digidol mewn ysgolion, gan gynnwys cyflwyno systemau newydd, datblygu trefniadau ar gyfer arholiadau digidol a gwella'r ddarpariaeth dechnolegol sydd ar gael i staff a disgyblion. Mae'r gwasanaeth yn darparu cefnogaeth i filoedd o ddyfeisiau digidol mewn ysgolion ledled y sir, gan helpu i sicrhau bod disgyblion ac athrawon yn gallu manteisio ar dechnoleg fodern o ddydd i ddydd. Wrth gynllunio a gweithredu'r datblygiadau hyn, rhoddir ystyriaeth i'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod technoleg ddigidol yn cefnogi profiad dysgu cyfrwng Cymraeg ac yn cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amgylcheddau addysgol digidol.

Ymgorffori'r Gymraeg mewn Prosiectau Digidol. Meysydd blaenoriaeth: Ymchwil a Thechnoleg; Gwaith a Gwasanaeth

Mae'r Adran wedi mabwysiadu egwyddor glir bod gofynion y Gymraeg yn rhan annatod o bob prosiect digidol newydd. Mae hyn yn berthnasol i waith megis datblygu systemau, seilwaith digidol, deallusrwydd artiffisial a datrysiadau technolegol eraill, gan sicrhau bod technoleg newydd yn cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn hytrach na chreu rhwystrau i'w defnyddio.

Mae cyfraniad yr Adran felly'n canolbwyntio'n bennaf ar y meysydd blaenoriaeth Dysgu, Gwaith a Gwasanaeth, ac Ymchwil a Thechnoleg.

2. Beth arall sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg?

Credwn fod y gwasanaethau ariannol a ddarperir gan yr Adran i'r cyhoedd, megis trethi a budd-daliadau, yn cael eu cynnig yn llawn drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar hyn o bryd, gan gynnwys ffurflenni, gohebiaeth, deunyddiau gwybodaeth a chymorth i gwsmeriaid. Serch hynny, bydd angen rhoi sylw parhaus dros y flwyddyn nesaf i sicrhau bod y ddarpariaeth hon yn cael ei chynnal a'i datblygu ymhellach wrth i wasanaethau a systemau esblygu.

Yn benodol, o ystyried y newidiadau parhaus ym maes budd-daliadau a'r angen i gydweithio â chyrff a chyflenwyr allanol, bydd yn bwysig monitro a dylanwadu ar drefniadau newydd er mwyn sicrhau bod anghenion y Gymraeg yn cael eu hystyried o'r cychwyn cyntaf. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod systemau digidol, ffurflenni ar-lein, gohebiaeth a gwasanaethau cymorth yn galluogi trigolion i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol ac yn hwylus.

Yn ogystal, wrth weithredu a chaffael systemau newydd o fewn yr Adran, bydd angen parhau i osod gofynion ieithyddol clir sy'n mynd y tu hwnt i gydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith, er mwyn cynyddu cyfleoedd i staff a'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gweithgareddau dyddiol. Bydd hyn yn cyfrannu at godi statws y Gymraeg fel iaith waith ac iaith gwasanaeth o fewn maes cyllid a gwasanaethau digidol. Mae adborth diweddar mewn perthynas â negeseuon e-bost awtomataidd a gynhyrchir gan systemau'r Adran wedi amlygu pwysigrwydd sicrhau bod y Gymraeg wedi'i hymgorffori'n llawn ym mhob agwedd o'n systemau digidol. Byddwn felly'n parhau i weithio gyda chyflenwyr a datblygwyr systemau i sicrhau bod cyfathrebiadau awtomataidd yn bodloni disgwyliadau'r Cyngor a defnyddwyr y gwasanaethau.

Mae'r Adran hefyd yn adolygu'r modd y rhoddir ystyriaeth i'r Gymraeg wrth ddatblygu polisïau, gwneud penderfyniadau a chynllunio gwasanaethau, gan gynnwys mewn meysydd megis y broses o osod cyllideb yn dilyn gohebiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg. Byddwn yn defnyddio unrhyw adborth a dderbynnir i gryfhau ein trefniadau ymhellach ac i sicrhau bod effaith penderfyniadau ar y Gymraeg yn cael eu hasesu a'u hystyried yn briodol. Credwn y bydd y gwaith hwn yn helpu i godi statws y Gymraeg ymhellach ac yn cynyddu cyfleoedd i'w defnyddio o fewn y Cyngor ac wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

Yn olaf, bydd yr Adran yn cefnogi gwaith peilot Comisiynydd y Gymraeg i fesur defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle drwy holiadur staff. Mae Cyngor Gwynedd yn aelod o grŵp ymgynghorol y Comisiynydd ar gynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd, ac mae'r peilot hwn yn gyfle gwerthfawr i ddeall yn well sut mae staff yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Bydd canlyniadau'r arolwg yn cynorthwyo i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu, gan lywio camau pellach i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a chreu mwy o gyfleoedd i staff ddefnyddio'r iaith yn naturiol yn y gweithle.

3. Ydy datblygiad technoleg wedi amharu ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? Os yn berthnasol rhwch enghraifft. Sut ydych chi'n sicrhau nad yw datblygiad technoleg yn effeithio ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

Yn gyffredinol, nid ydym o'r farn bod datblygiadau technolegol wedi amharu'n sylweddol ar allu'r Adran Gyllid i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'n systemau a'n gwasanaethau digidol yn cefnogi darpariaeth ddwyieithog, ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod gofynion y Gymraeg yn cael eu cynnwys o'r cychwyn cyntaf wrth ddatblygu, caffael neu ddiweddarau technoleg.

Fodd bynnag, mae heriau'n codi o bryd i'w gilydd, yn enwedig mewn perthynas â systemau a ddarperir neu a reolir gan gyrff a chyflenwyr allanol. Er enghraifft, mae adborth diweddar wedi tynnu sylw at y ffaith nad oedd rhai negeseuon e-bost awtomataidd a gynhyrchir gan systemau'r Adran yn cynnwys y Gymraeg. Yn yr un modd, gall systemau cenedlaethol neu drydydd parti a ddefnyddir ym meysydd trethi, budd-daliadau ac adnoddau corfforaethol weithiau gyfyngu ar ba mor gyflym y gellir gweithredu darpariaeth Gymraeg lawn.

Er mwyn lliniaru'r risgiau hyn, mae'r Adran yn mabwysiadu dull rhagweithiol drwy gynnwys gofynion ieithyddol penodol mewn manylebau caffael a chontractau. Fel soniwyd eisoes, gwnaethpwyd hyn wrth gaffael system iTrent, lle rhoddwyd pwyslais ar sicrhau bod y Gymraeg wedi'i hymgorffori yn y systemau o'r cychwyn cyntaf ac nid fel ychwanegiad diweddarach. Mae'r Adran hefyd yn gweithio'n agos gyda chyflenwyr megis GovTech a darparwyr eraill i sicrhau bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael eu cynnal a'u datblygu ymhellach.

Byddwn yn parhau i fonitro effaith technoleg newydd ar y defnydd o'r Gymraeg, i ymateb i adborth defnyddwyr ac i sicrhau bod datblygiadau technolegol yn cyfrannu at gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn hytrach na chreu rhwystrau i'w defnyddio. Credwn fod hyn yn allweddol er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn parhau'n iaith naturiol ar gyfer darparu gwasanaethau ac ar gyfer gwaith dyddiol o fewn yr Adran.

4. Sut ydych chi'n cadw cofnod o'r bobl sy'n defnyddio eich gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg? Allwch chi rannu data perthnasol?

Mae mwyafrif o wasanaethau'r Adran Gyllid yn wasanaethau cefnogol mewnol, ac felly nid ydym yn cadw cofnod canolog o nifer y cwsmeriaid sy'n defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws holl weithgareddau'r Adran.

Fodd bynnag, lle mae systemau'n caniatáu hynny, rydym yn monitro ac yn hyrwyddo defnydd o wasanaethau Cymraeg. Enghraifft dda o hyn yw Cronfa Bensiwn Gwynedd. Cyflwynwyd system hunanwasanaeth newydd i aelodau'r gronfa ym mis Ebrill 2024. Cronfa Bensiwn Gwynedd oedd y gronfa gyntaf yng Nghymru i uwchraddio i'r platfform newydd, ac fe fu'n rhaid cydweithio'n agos gyda'r cyflenwr i greu fersiwn Gymraeg lawn o'r safle. Roedd hwn yn ddatblygiad arwyddocaol a sicrhodd fod aelodau'n gallu defnyddio'r gwasanaeth yn Gymraeg o'r cychwyn cyntaf. Mae'r Gwasanaeth Pensiwn hefyd yn falch o'r

cyfraniad a wnaed wrth sefydlu system hunanwasanaeth ddwyieithog a fu'n sail i ddarpariaeth Gymraeg sydd bellach wedi'i mabwysiadu ar draws pob cronfa bensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru.

Mae llwyddiant y gwaith hwn wedi arwain at fabwysiadu'r un datrysiaid gan bob un o'r wyth cronfa bensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) yng Nghymru, gan ddarparu profiad cyson a dwyieithog i aelodau ledled y wlad. Mae'r datblygiad hwn wedi cyfrannu'n sylweddol at gynyddu defnydd o'r Gymraeg ym maes gweinyddu pensiynau ac wedi darparu model llwyddiannus y gall sefydliadau eraill ei ddilyn.

Mae'r Gronfa hefyd yn parhau i arwain ar ddatblygiadau digidol cyfrwng Cymraeg. Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth Pensiwn yn gweithio'n agos gyda'r cyflenwr ar ddatblygu fersiynau Cymraeg o bedwar fideo personol rhyngweithiol newydd i aelodau. Bydd y rhain yn darparu gwybodaeth glir ac ymgysylltiol ar bynciau pwysig megis cyflwyniad i'r Gronfa ar gyfer staff newydd, cynllunio ar gyfer ymddeoliad, Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY), a'r opsiynau sydd ar gael i aelodau wrth baratoi ar gyfer ymddeol. Y nod yw sicrhau bod aelodau'n gallu cael mynediad at wybodaeth gymhleth am eu pensiwn mewn ffordd hawdd ei deall, hygyrch a chyfan gwbl ddwyieithog.

Yn ogystal â'r gwaith hwn, mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi cydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol ar ddatblygu adnoddau dwyieithog i hyrwyddo'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae hyn wedi cynnwys cynhyrchu fideos gwybodaeth ac ystod o ddeunyddiau hyrwyddo y gall cyflogwyr eu defnyddio i godi ymwybyddiaeth o werth y cynllun pensiwn ymhlith eu gweithwyr a chefnogi ymgysylltiad gwell ag aelodau. Mae'r adnoddau hyn wedi helpu i sicrhau bod gwybodaeth am y cynllun ar gael yn gyfartal drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, gan gefnogi ymdrechion ehangach i gynyddu cyfranogiad ac ymwybyddiaeth o fuddion y CPLIL ledled Cymru.

Yn ogystal, mae swyddogion y Gwasanaeth Pensiwn wedi cyfrannu at ddatblygu geiriadur o dermau pensiwn Cymraeg mewn cydweithrediad â Chymdeithas Llywodraeth Leol a phartneriaid eraill, gan gefnogi defnydd ehangach o'r Gymraeg yn y maes a helpu i sicrhau cysondeb ieithyddol ar draws gwasanaethau pensiwn Cymru.

Wrth i fwy o wasanaethau symud i lwyfannau digidol, bydd yr Adran yn parhau i ymchwilio i gyfleoedd i gasglu a dadansoddi gwybodaeth am ddefnydd o wasanaethau Cymraeg er mwyn deall y galw, mesur defnydd a chefnogi datblygiad pellach y ddarpariaeth Gymraeg.

5. Beth yw sgiliau iaith eich staff?

** Gan fod y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth wedi trosglwyddo i'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol, cyflwynir yr ymateb i'r cwestiwn hwn ar wahân ar gyfer yr Adran Gyllid a'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth.*

Cyllid

Mae'r Adran Gyllid yn parhau i feddu ar weithlu sydd â sgiliau Cymraeg cryf. Erbyn diwedd Medi 2026, roedd pob aelod o staff (100%) wedi cwblhau hunanasesiad iaith.

O'r 144 aelod o staff a gwblhaodd yr asesiad, roedd pob un (100%) yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd. Mae hyn yn dangos llwyddiant yr Adran wrth recriwtio a datblygu gweithlu sydd â'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol i gyflawni gofynion eu swyddi a darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ôl y data hunanasesu, roedd 94 aelod o staff yn meddu ar sgiliau Cymraeg ar lefel Hyfedredd, 44 ar lefel Uwch a 6 ar lefel Canolradd. Nid oedd unrhyw aelod o staff ar lefel Sylfaen na Mynediad, ac nid oedd unrhyw aelod o staff heb sgiliau Cymraeg. Mae hyn yn golygu bod bron pob aelod o staff yn meddu ar sgiliau Cymraeg uwch neu hyfedr.

Mae'r gyfradd gwblhau ymhlith yr uchaf yn y Cyngor, gan osod yr Adran ymhlith y gwasanaethau sy'n perfformio orau yn hyn o beth. Yn ogystal, mae un aelod o staff wedi cofrestru ar gwrs Gloywi iaith i ddatblygu a mireinio ei sgiliau ymhellach, gan adlewyrchu ymrwymiad parhaus yr Adran i ddatblygiad ieithyddol ei gweithlu.

Mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu diwylliant gwaith Cymraeg cadarn o fewn yr Adran ac yn sicrhau ein bod mewn sefyllfa gref i barhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel drwy gyfrwng y Gymraeg.

Technoleg Gwybodaeth

Mae'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth hefyd yn meddu ar weithlu sydd â sgiliau Cymraeg cryf. Roedd pob un o'r 73 aelod o staff (100%) wedi cwblhau eu hunanasesiad iaith.

Roedd 71 aelod o staff (97.3%) yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd. O'r ddau aelod o staff nad ydynt hyd yma yn cyrraedd gofynion ieithyddol eu swyddi, mae un yn dilyn cwrs hyfforddiant iaith i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg.

Yn ôl y data hunanasesu, roedd 45 aelod o staff yn meddu ar sgiliau Cymraeg ar lefel Hyfedredd, 25 ar lefel Uwch, un ar lefel Canolradd a dau ar lefel Sylfaen. Nid oedd unrhyw aelod o staff ar lefel Mynediad nac unrhyw aelod o staff heb sgiliau Cymraeg.

Mae'r canlyniadau hyn yn dangos bod mwyafrif helaeth gweithlu'r gwasanaeth yn meddu ar sgiliau Cymraeg uwch neu hyfedr, ac yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus y gwasanaeth i gynnal a datblygu ei allu i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth dechnegol yn ddwyieithog.

6. Rhowch enghreifftiau o unrhyw rwystrau, cwynion a chanmoliaeth sy'n gysylltiedig gyda darparu a hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Rhwystrau:

Y prif rwystrau a wynebwyd gan yr Adran yw'r rhai sy'n ymwneud â systemau a meddalwedd a ddarperir gan gyflenwyr allanol. Er bod y Cyngor yn gosod gofynion ieithyddol clir wrth gaffael systemau newydd, nid yw pob datrysiad ar gael yn llawn drwy gyfrwng y Gymraeg o'r cychwyn cyntaf. Mae hyn wedi golygu bod angen gweithio'n agos gyda chyflenwyr i ddatblygu neu wella darpariaeth Gymraeg mewn rhai systemau.

Mae heriau hefyd yn codi o bryd i'w gilydd wrth gyflwyno newidiadau cenedlaethol mewn meysydd fel budd-daliadau a threthi, lle mae'r Cyngor yn ddibynnol ar systemau a chanllawiau allanol. Mae'r Adran yn parhau i ddylanwadu ar bartneriaid a chyflenwyr er mwyn sicrhau bod anghenion defnyddwyr Cymraeg eu hiaith yn cael eu hystyried.

Cwynion:

Yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd adborth ynghylch negeseuon e-bost awtomataidd a gynhyrchir gan un o systemau'r Adran nad oeddent yn cynnwys Cymraeg. Yn dilyn hyn, tynnwyd sylw'r cyflenwr at y mater i sicrhau bod gofynion y Gymraeg yn cael eu hystyried wrth ddatblygu a ffurfweddu systemau yn y dyfodol. Derbyniwyd nifer fechan o gwynion yn ystod y flwyddyn hefyd mewn perthynas â gohebiaeth Gymraeg. Roedd y rhain yn cynnwys achosion lle cafodd gohebiaeth Gymraeg ei hateb yn uniaith Saesneg. Ymchwiliwyd i'r achosion hyn yn brydlon a chanfuwyd eu bod yn deillio naill ai o gamgymeriadau unigol neu gyfyngiadau o fewn systemau penodol, yn hytrach nag o ddiffyg ymrwymiad i'r Gymraeg. Mewn ymateb, atgoffwyd staff o'r trefniadau presennol ar gyfer trin gohebiaeth ddwyieithog a Chymraeg, a chafodd materion systemau eu codi gyda'r cyflenwyr perthnasol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â gofynion polisi iaith y Cyngor. Mae'r Adran yn parhau i fonitro'r sefyllfa ac i weithredu ar unrhyw faterion sy'n codi er mwyn cynnal safon uchel o wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Adran hefyd wedi derbyn gohebiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas ag agweddau ar y broses gyllidebol. Er bod y mater yn destun ystyriaeth gorfforaethol, mae'r Adran yn croesawu'r cyfle i adolygu ei threfniadau ac i gryfhau'r modd y rhoddir ystyriaeth i'r Gymraeg wrth ddatblygu polisiâu, asesu effeithiau a gwneud penderfyniadau.

Canmoliaeth:

Ymfalchiwn fod yr Adran wedi derbyn adborth cadarnhaol am ei hymrwymiad i hyrwyddo a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ynghyd a defnydd naturiol a helaeth o'r Gymraeg yn y gweithle ac yn ei chysylltiadau â sefydliadau partner. Tystiolaeth amlwg o hyn oedd cyfraniad Tomos Mabon Pritchard, Prentis Cyllid, ar banel yng Nghynhadledd Dysgu, Datblygu a Defnyddio'r Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg, lle bu'n rhannu ei brofiadau o weithio mewn amgylchedd sy'n gweithredu'n naturiol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Gronfa Bensiwn hefyd yn parhau i arwain ar ddatblygiadau digidol cyfrwng Cymraeg. Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth Pensiwn yn gweithio'n agos gyda'r cyflenwr ar ddatblygu fersiynau Cymraeg o bedwar fideo personol rhyngweithiol newydd i aelodau. Bydd y rhain yn darparu gwybodaeth glir ac ymgysylltiol ar bynciau pwysig megis cyflwyniad i'r Gronfa ar gyfer staff newydd, cynllunio ar gyfer ymddeoliad, Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY), a'r opsiynau sydd ar gael i aelodau wrth baratoi ar gyfer ymddeol. Y nod yw sicrhau bod aelodau'n gallu cael mynediad at wybodaeth gymhleth am eu pensiwn mewn ffordd hawdd ei deall, hygyrch a chyfan gwbl ddwyieithog.

Yn ogystal â'r gwaith hwn, mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi cydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol ar ddatblygu adnoddau dwyieithog i hyrwyddo'r Cynllun Pensiwn

Llywodraeth Leol. Mae hyn wedi cynnwys cynhyrchu fideos gwybodaeth ac ystod o ddeunyddiau hyrwyddo y gall cyflogwyr eu defnyddio i godi ymwybyddiaeth o werth y cynllun pensiwn ymhlith eu gweithwyr a chefnogi ymgysylltiad gwell ag aelodau. Mae'r adnoddau hyn wedi helpu i sicrhau bod gwybodaeth am y cynllun ar gael yn gyfartal drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, gan gefnogi ymdrechion ehangach i gynyddu cyfranogiad ac ymwybyddiaeth o fuddion y CPLIL ledled Cymru.

Yn ogystal, mae swyddogion y Gwasanaeth Pensiwn wedi cyfrannu at ddatblygu geiriadur o dermau pensiwn Cymraeg mewn cydweithrediad â Chymdeithas Llywodraeth Leol a phartneriaid eraill, gan gefnogi defnydd ehangach o'r Gymraeg yn y maes a helpu i sicrhau cysondeb ieithyddol ar draws gwasanaethau pensiwn Cymru.

Mae arferion yr Uned Gyflogau hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Mae cofnodion gweithwyr newydd yn cael eu sefydlu gyda'r Gymraeg fel iaith ddewisol yn y system, ac mae'r holl ohebiaeth gychwynnol sy'n ymwneud â dechrau cyflogaeth, gan gynnwys ffurflenni a cheisiadau am wybodaeth, yn cael eu darparu'n ddwyieithog. Mae slipiau cyflog ar gael i staff yn Gymraeg neu Saesneg yn ôl eu dewis personol, ac mae'r Uned wedi adolygu ei llythyrau cyflogaeth i sicrhau eu bod ar gael yn y ddwy iaith. Mae'r trefniadau hyn wedi cyfrannu at ddarparu gwasanaeth cyson a hygyrch i ddefnyddwyr Cymraeg eu hiaith, ac ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ynghylch defnydd yr Uned o'r Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd.

Yn ogystal, mae'r ddarpariaeth hyfforddiant a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg o fewn yr Adran yn parhau i gefnogi datblygiad gweithlu proffesiynol sy'n gallu gweithio a darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gyfrannu at hyrwyddo'r iaith yn y maes cyllid a gwasanaethau digidol.

Yn gyffredinol, mae'r profiad wedi dangos bod mwyafrif y materion sy'n codi yn ymwneud â chyfyngiadau systemau allanol yn hytrach na diffyg defnydd o'r Gymraeg o fewn yr Adran ei hun, enghraifft o hyn yw'r modiwl Open Banking a ddarperir gan Access Paysuite, nad yw'r Cyngor wedi gallu ei weithredu hyd yma gan nad yw pob elfen o'r drefn ar gael yn Gymraeg, ond er hyn rydym yn parhau i weithio'n rhagweithiol i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hymgorffori ym mhob agwedd ar ein gwasanaethau.

Adroddiad yr adran i Bwyllgor Iaith yn 2025: [Cynllun Hybur Gymraeg - Adran Gyllid.pdf](#)

Eitem 8

Cyfarfod	Pwyllgor Iaith
Dyddiad	5 Hydref 2026
Teitl	Arolygon thematig Comisiynydd y Gymraeg
Awduron	Nia Haf Lewis Ymgynghorydd Iaith
Pwrpas yr Adroddiad	Cyflwyno adroddiad ar arolygon thematig sydd wedi cyrraedd Tîm y Gymraeg eleni, a'r ymateb i'r camau gwella.

1. Cefndir

Ymateb i gamau gwella arolygon thematig Comisiynydd y Gymraeg

- 1.1 Fel rhan o swyddogaethau rheoleiddio a monitro Comisiynydd y Gymraeg, cynhelir arolygon gwirio er mwyn asesu i ba raddau y mae sefydliadau'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Maent yn rhannu canfyddiadau y gwaith arolygu hynny yn barhaus drwy gydol y flwyddyn, er mwyn i gyrff adolygu eu dulliau gweithredu a chryfhau eu cydymffurfiaeth yn unol â'r safonau.
- 1.2 Maent wedi rhannu adroddiadau ar arolygon penodol yn ystod y flwyddyn, lle bu disgwyl i ni fel sefydliad adrodd ar y camau a roddwyd mewn lle mewn ymateb i argymhellion yr adroddiad hwnnw.

2. Arolygon thematig 2026

Cyfryngau cymdeithasol

- 2.1 Nid oedd Cyngor Gwynedd yn un o'r sefydliadau oedd yn rhan o'r arolwg, ond mae'r adroddiad yn crynhoi pwyntiau cyffredinol dylwn eu dilyn fel arfer dda. Mae'r prif argymhellion yn pwysleisio cysondeb a chywirdeb o ran iaith ac arddull, wrth gyhoeddi negeseuon yn y ddwy iaith ar gyfryngau cymdeithasol, dros gyfrwng testun neu gyfrwng fideos. Dylid sicrhau bod y cynnwys Cymraeg yr un mor hygyrch a gweledol â'r cynnwys Saesneg.
- 2.2 Mae'r adroddiad llawn i'w weld yma:-
[arolygon-cyfryngau-cymdeithasol-sefydliadau-rh1.pdf](#)
- 2.3 Mi wnaethom ystyried yr argymhellion hynny ac ymateb iddynt fel yr isod:
- 2.3.1 Argymhelliad 1: Trefniadau goruchwyllo
Cafwyd cyfarfod gyda Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu a'r staff sydd yn ymwneud gyda chyfryngau cymdeithasol er mwyn gwirio a sicrhau bod pob platfform yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol. Cafwyd sicrwydd bod trefniadau hunan rheoli addas mewn lle i gael trosolwg o'r holl gyfrifon. Os am agor cyfrif mae'n rhaid llenwi ffurflen gais a chytuno i ddilyn y polisi a chanllaw cyfryngau cymdeithasol.
- 2.3.2 Argymhelliad 2: Hunaniaeth gorfforaethol
Ffurfioli trefn archwiliadau bob 3 blynedd yn ogystal ag archwiliadau ar hap.
- 2.3.3 Argymhelliad 3: Cysondeb wrth gyhoeddi negeseuon

Diweddardwyd polisi a chanllaw cyfrifon cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

2.3.4 Argymhelliad 4: Hyrwyddo cyfrifon Cymraeg

Defnyddir un cyfrif dwyieithog gyda physt yn cael eu rhoi yn Gymraeg yn gyntaf ac yna'n Saesneg yn unol â'n polisi iaith.

2.3.5 Argymhelliad 5: Fideos

Rydym bob amser yn ceisio sicrhau ein bod yn defnyddio'r dulliau mwyaf addas ar gyfer cynhyrchu fideos gan gynnwys rhai Cymraeg. Gan ein bod yn derbyn ymholiadau gan staff ynglŷn â chyhoeddi fideos yn Gymraeg rydym yn y broses o greu canllaw ychwanegol ar gynhyrchu fideos ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a fydd yn cynnwys cyngor ar sut i sicrhau nad yw fideos yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r Gymraeg.

Gwefannau Hamdden a Llyfrgelloedd

2.4 Bu Cyngor Gwynedd yn un o'r sefydliadau wnaeth Comisiynydd y Gymraeg eu defnyddio fel sampl ar brawf, gan wirio'r gwefannau rhwng Hydref a Thachwedd 2025.

2.5 Mae'r canlyniadau llawn ar draws sefydliadau i'w gweld yma:-

[20251218-dg-c-adroddiad-gwefannau-hamdden-a-llyfrgelloedd-all-2.pdf](#)

Crynodeb

2.6 Ar lefel sefydliadol, cawsom ganlyniadau oedd yn uwch oleuo ambell broblem o ran y system, oedd yn golygu bod ambell air neu bennawd (e.e. dyddiau'r wythnos / submit) yn Saesneg yn unig.

Ymateb i'r argymhellion

2.7 Wrth ystyried yr argymhellion, dyma'r ymateb rhoddwyd:

2.7.1 Argymhelliad 1: Trefniadau goruchwyllo

Rydym wedi adolygu a ffurfioli ein prosesau hunan-reoleiddio ac wedi ymrwymo i wneud gwiriadau ar hap bob blwyddyn o wefannau amrywiol. Atgoffwyd staff o'r gofyn i sicrhau nad yw'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael ei thrin yn wahanol a nodwyd bod bwriad i wneud gwiriadau ar hap yn flynyddol gan dîm y Gymraeg a Chraffu. Mae arweiniad a chanllaw i staff yn ein polisi iaith ac fe gyfeirir at yr angen i gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg ac ein polisi iaith pan yn comisiynu gwaith i drydydd parti.

2.7.2 Argymhelliad 2: Hunaniaeth gorfforaethol

Mae Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd wrthi'n diweddaru canllawiau brand ar gyfer y cyngor ac yn bwriadu atgoffa staff i gynnwys y logo cywir ac arddel enwau Cymraeg. Bydd Tîm y Gymraeg a Chraffu yn cynnal archwiliadau blynyddol ar hap o wefan y Cyngor ac unrhyw wefan berthnasol arall.

2.7.3 Darganfuwyd rhai gwallau eleni oherwydd bod diweddariadau wedi eu gwneud i feddalwedd. Yn anffodus nid yw'r system yn cyfieithu bod dim yn gywir bob amser i'r Gymraeg. Eglurwyd bod swyddogion yn cydweithio gyda'r cwmnïau sy'n gyfrifol am y systemau er mwyn ceisio cael datrysiaid i sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto. Y gobaith yw y bydd posib cael rhestr o'r tesun cyn cyhoeddi diweddariad er mwyn gwirio bod popeth wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg.

2.7.4 Argymhelliad 3: Cysondeb wrth gyhoeddi neu ddiwygio tudalennau

Nid yw mwyafrif helaeth staff y Cyngor yn gallu cyhoeddi cynnwys ar wefan y Cyngor eu hunain. Gwneir hynny fel arfer gan dîm y wefan, sy'n gwirio bod y Gymraeg a Saesneg ar gael wrth dderbyn cynnwys i'w gyhoeddi. Nid yw'r cynnwys yn cael ei gyhoeddi oni bai bod fersiwn Cymraeg a Saesneg ar gael. Atgoffir staff sy'n gyfrifol am gynnwys a roddir ar y wefan drwy system trydydd parti, e.e. modern gov, tascomi i ddilyn yr un drefn.

2.7.5 Argymhelliad 4: Cyfieithu

Mae gwasanaeth prawf ddarllen a chyfieithu yn cael ei ddarparu gan y Tîm Cyfieithu ar gyfer holl staff. Anogir staff i ddefnyddio eu gwasanaeth hwy i gyfieithu a phrawf ddarllen holl ddeunyddiau cyhoeddus.

2.7.6 Argymhelliad 5: Fideos

Ar hyn o bryd mae gwaith yn cael ei wneud at ddatblygu canllawiau ynghylch arfer da gyda cyhoeddi fideos. Bydd y canllaw yn cynnwys cymal sy'n atgoffa staff sut i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar fideos.

2.7.7 Argymhelliad 6: Cydweithio

Mae'r Cyngor eisoes mewn trafodaethau gyda chwmnïau sy'n darparu ein gwefannau er mwyn gwella cydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg. Mae'r gwallau a ddarganfydd ? gan yr arolwg bellach wedi eu cywiro. Fel nodir uchod y gobaith yw y bydd posib cael ? rhestr o'r testun cyn cyhoeddi diweddariad yn y dyfodol er mwyn gwirio bod popeth wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg.

Hyfforddiant


2.8 Derbyniodd y Cyngor arolwg, er mwyn i'r Comisiynydd ddysgu am y ddarpariaeth hyfforddiant Cymraeg i staff, asesu ei effaith ar ddefnydd ymarferol o'r Gymraeg, ac adnabod arferion da a meysydd i'w gwella.

2.9 Mi fyddwn yn ymateb i'r argymhellion dros y misoedd nesaf, gyda'r pwyslais ar hyrwyddo ein polisi iaith ymysg staff er mwyn cryfhau trefniadau mewnol i arfogi a chefnogi staff i ddefnyddio'u Cymraeg ac i mesur effaith cyfleoedd hyfforddiant ar ddefnydd y Gymraeg yn y gwaith.

3. **Argymhelliad**


Gofynnir i'r aelodau:

- Dderbyn cynnwys yr Adroddiad gan nodi'r sylwadau dderbyniwyd.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Arolygon gwirio cyfryngau cymdeithasol: Gweinidogion Cymru, Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1)



Cynnwys

1	Cyflwyniad	3
2	Methodoleg	4
3	Canfyddiadau	5
4	Tueddiadau	10
5	Casgliadau ac argymhellion	14
	Atodiadau	16


1 Cyflwyniad

- 1.1 Eleni, rydym wedi adolygu ein trefniadau ar gyfer monitro a rheoleiddio cydymffurfiaeth sefydliadau cyhoeddus â'u dyletswyddau iaith, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau'r Cynllun Strategol a'r Deilliannau Rheoleiddio a gyhoeddwyd yn 2024-2025.
- 1.2 Fel rhan o'r adolygiad hwn, buom yn ystyried pa newidiadau a dulliau amgen oedd eu hangen i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau, ac i hyrwyddo cydymffurfiaeth mewn modd mwy rhagweithiol.
- 1.3 Roeddem yn awyddus i ddatblygu dulliau monitro a hyrwyddo a fyddai'n rhoi mwy o sicrwydd i ni ynghylch cydymffurfiaeth sefydliadau. Penderfynwyd cynllunio arolygon gwirio i'w cynnal yn chwarterol, gyda chanlyniadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r sefydliadau unigol o fewn yr un chwarter.
- 1.4 Un o fanteision allweddol y dull hwn o fonitro yw bod sefydliadau'n cael gwybod am unrhyw faterion cydymffurfiaeth mewn modd amserol drwy gydol y flwyddyn, gan roi cyfle iddynt weithredu atebion priodol yn brydlon.
- 1.5 Mae cyfryngau cymdeithasol wedi'u nodi fel maes blaenoriaeth ar gyfer pob sefydliad eleni. Daw hyn yn sgil y ffaith bod arferion sefydliadau yn y maes hwn wedi esblygu'n sylweddol dros y pedair blynedd ddiwethaf, gyda defnydd cynyddol o amrywiaeth o blatfformau.
- 1.6 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r arolygon gwirio a gynhaliwyd â sefydliadau sydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1 gan gyflwyno argymhellion i chi eu hystyried i sicrhau gwell cydymffurfiaeth o fewn eich sefydliad chi.
- 1.7 Yn ogystal â'r adroddiad hwn, bydd canfyddiadau unigol yn cael eu trafod gyda phob sefydliad oedd yn rhan o'r gwaith arolygu er mwyn cynnig adborth wedi'i deilwra a chefnogi camau gwella penodol.
- 1.8 Er inni gynnal yr arolwg gyda sampl o'r sefydliadau yn unig, mae canfyddiadau'r adroddiad hwn ynghyd â'r argymhellion yn berthnasol i'r holl sefydliadau sydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1.

2 Methodoleg

- 2.1 Arolygwyd 13 o sefydliadau sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1 oedd yn cynnwys 12 awdurdod lleol a 1 parc cenedlaethol.
- 2.2 Arolygwyd y sefydliadau yn ystod Gorffennaf ac Awst 2025.
- 2.3 Mae Rheoliadau Rhif 1, sef Rheoliadau Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r sector hwn, yn cynnwys dwy safon, sef safon 58 a safon 59 sy'n cyfeirio at ddefnydd sefydliadau o'r cyfryngau cymdeithasol.
- 2.4 Mae Safon 58 yn nodi 'Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid i chi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'.
- 2.5 Mae Safon 59 yn cyfeirio at ymateb i bobl ar y cyfryngau cymdeithasol - 'Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb)'.
- 2.6 Roedd yr arolygon hyn yn canolbwyntio ar gydymffurfiaeth â safon 58.
- 2.7 Gwiriwyd platfformau Facebook a X (Twitter gynt) gan ganolbwyntio ar is-gyfrifon yn hytrach na phrif gyfrifon y sefydliadau. Roedd hyn oherwydd ein bod wedi gwirio prif gyfrifon Facebook ac X yn flynyddol ers 2018 a'r ffaith ein bod yn derbyn nifer cynyddol o ymholiadau a chwynion yn ymwneud â is-gyfrifon ar y platfformau hyn. Ar gyfer yr awdurdodau lleol, gwiriwyd is-gyfrifon ar gyfer gwasanaethau llyfrgelloedd a hamdden (lle bo cyfrifon yn bodoli). Roedd gan yr 13 sefydliad oedd yn rhan o'r arolwg is-gyfrifon ar Facebook. Dim ond wyth sefydliad oedd ag is-gyfrifon ar X er bod rhai enghreifftiau lle gwelwyd bod hen gyfrifon yn parhau ar y platfform ond heb eu defnyddio yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn achos y sefydliadau hynny oedd ag is gyfrifon, gwiriwyd pum neges o gyfrif gwasanaethau llyfrgelloedd a phump o gyfrif hamdden. Lle nad oedd cyfrifon ar gyfer y ddau wasanaeth gwahanol, gwiriwyd deg neges o'r un cyfrif.
- 2.8 Gwiriwyd hefyd cyfrifon ar Instagram a LinkedIn ar gyfer yr 13 sefydliad. Nid yw'r Comisiynydd wedi arolygu'r platfformau hyn yn y gorffennol. Roedd pob sefydliad yn defnyddio'r platfformau hyn. Gwiriwyd deg neges ddiweddar gan bob sefydliad ar eu prif gyfrifon ar gyfer y ddau blatfform hwn.
- 2.9 Gwiriwyd 470 o negeseuon neu bostiadau ar draws yr holl blatfformau gan wirio:
 - A oedd y neges ar gael yn Gymraeg?
 - A oedd y neges yn cydymffurfio â gofynion safonau yn ymwneud â chyfryngau cymdeithasol?
 - A oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?
- 2.10 Yn ogystal, gwiriwyd cydymffurfiaeth â safon 83 sy'n ymwneud â hunaniaeth gorfforaethol. Mae safon 83 yn nodi - 'Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid i chi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'.


3 Canfyddiadau




- 3.1 Mae'r arolygon wedi canfod bod sefydliadau wedi cydymffurfio yn well wrth gyhoeddi negeseuon ar y platfform X (79%). Y platfform lle roedd lefel cydymffurfiaeth ar ei isaf oedd Facebook (57%). Roedd 72% o'r negeseuon a wiriwyd ar Instagram yn cydymffurfio'n llawn â safon 58 tra bod 67% o'r negeseuon ar LinkedIn yn cydymffurfio.

Is-gyfrifon Facebook ac X

- 3.2 Dangosodd canlyniadau'r arolygon eleni bod 76% o'r negeseuon a wiriwyd ar is-gyfrifon Facebook ac X ar gael yn Gymraeg yn llawn. Roedd 15% o'r negeseuon a wiriwyd ar is-gyfrifon Facebook ac X yn uniaith Saesneg.
- 3.3 Gwelwyd bod 65% o'r negeseuon a wiriwyd ar is-gyfrifon Facebook ac X yn cydymffurfio'n llawn â gofynion safon 58.
- 3.4 Yn achos y platfform Facebook, roedd pedwar sefydliad oedd yn rhan o'r sampl eleni wedi cydymffurfio'n llawn ym mhob un o'r 10 neges a wiriwyd. Roedd un sefydliad oedd wedi methu â chydymffurfio â safon 58 ym mhob un o'r deg neges a wiriwyd.




- 3.5 Dim ond un sefydliad oedd wedi llwyddo i sicrhau nad oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ym mhob un o'r deg neges a wiriwyd.
- 3.6 O'r 25 cyfrif a wiriwyd ar Facebook roedd pedwar cyfrif yn uniaith Saesneg. Roedd y ddau gyfrif a wiriwyd ar gyfer un corff yn uniaith Saesneg.
- 3.7 Ar X, roedd dau sefydliad wedi cydymffurfio yn llawn ym mhob un o'r deg neges a wiriwyd. Roedd un sefydliad oedd wedi methu â chydymffurfio â safon 58 ym mhob un o'r deg neges a wiriwyd. Roedd dau sefydliad oedd wedi llwyddo i sicrhau nad oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ym mhob un o'r deg neges a wiriwyd ar eu cyfrifon ar X.




- 3.8 O'r 14 cyfrif a wiriwyd ar X, roedd un o'r cyfrifon yn uniaith Saesneg.
- 3.9 Yn gyffredinol roedd sefydliadau yn perfformio yn well ar y platfform X gyda 79% o'r negeseuon yn cydymffurfio'n llawn, tra mai dim ond 57% o'r negeseuon ar Facebook oedd yn cydymffurfio'n llawn. Nodwyd hefyd bod 34% o'r negeseuon yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ar X a 57% ar Facebook.
- 3.10 Roedd canfyddiadau arolygon llynedd (2024-2025) yn dangos bod lefel cydymffurfiaeth â safon 58 yn uchel ymysg sefydliadau sydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1, gyda 93% o'r negeseuon a wiriwyd yn cydymffurfio'n llawn. Tra bo cydymffurfiaeth â'r gofynion yn uchel yn achos prif gyfrifon Facebook ac X y llynedd, mae canlyniadau'r arolygon ar yr is-gyfrifon yn dangos sefyllfa wahanol ac yn amlygu'r angen i sefydliadau i gymryd camau bwriadus i sicrhau cydymffurfiaeth ar draws yr holl gyfrifon.
- 3.11 Nodwyd bod rhai o'r gwasanaethau dan sylw yn cael eu darparu gan drydydd parti ar ran y sefydliad. Yn yr achos hynny, roedd lefel cydymffurfiaeth yn dueddol o fod yn is. Mae hyn yn amlygu'r angen i sefydliadau sicrhau bod eu darparwyr trydydd parti yn llwyr ymwybodol ac yn gyfarwydd â gofynion y safonau a bod trefniadau cadarn mewn lle i wirio a sicrhau cydymffurfiaeth fel rhan o'r cytundeb gyda'r darparwr dan sylw.

Instagram



- 3.12 Yn achos y platfform Instagram, roedd 72% o'r negeseuon a wiriwyd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion safon 58 ac roedd 89% o'r negeseuon ar gael yn Gymraeg.
- 3.13 Roedd dau sefydliad wedi cydymffurfio'n llawn ym mhob un o'r deg neges a wiriwyd.
- 3.14 Gwelwyd fodd bynnag, bod y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ym 47% o'r negeseuon a wiriwyd.
- 3.15 Roedd dau sefydliad wedi llwyddo i sicrhau nad oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ym mhob un o'r deg neges a wiriwyd ar eu cyfrifon.
- 3.16 O'r 13 cyfrif a wiriwyd ar Instagram, roedd pob un ar gael yn Gymraeg.


LinkedIn



- 3.17 Roedd 67% o'r negeseuon a wiriwyd ar y platfform LinkedIn yn cydymffurfio'n llawn â gofynion safon 58 gyda 78.5% o'r negeseuon ar gael yn Gymraeg.
- 3.18 Roedd dau sefydliad wedi cydymffurfio yn llawn ym mhob un o'r deg neges a wiriwyd. Yn groes i hynny, roedd un sefydliad wedi methu â chydymffurfio â safon 58 ym mhob un o'r deg neges a wiriwyd.

- 3.19 Roedd 43% o'r negeseuon a wiriwyd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg gyda dim ond un sefydliad yn llwyddo i sicrhau nad oedd wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ym mhob un o'r deg neges a wiriwyd.
- 3.20 O'r 13 cyfrif a wiriwyd, roedd un sefydliad yn gweithredu cyfrif uniaith Saesneg, tra bod y 12 cyfrif arall ar gael yn Gymraeg – naill ai drwy gyfrif Cymraeg penodol neu gyfrifon dwyieithog.

Hunaniaeth gorfforaethol (safon 83)




- 3.21 O safbwynt gofynion safon 83 a'r ddyletswydd i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol, gwelwyd bod 68% o'r cyfrifon a wiriwyd ar Facebook yn methu â chydymffurfio tra bod 50% o'r cyfrifon ar X hefyd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 3.22 Roedd y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol yn 38% o'r cyfrifon a wiriwyd ar Instagram.
- 3.23 Yn achos cyfrifon ar y platfform LinkedIn, gwelwyd bod 69% ohonynt yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflwyno eu hunaniaeth gorfforaethol.
- 3.24 Y prif reswm dros y sefyllfa hon oedd bod sefydliadau yn tueddu i ddefnyddio enwau cyfrif uniaith Saesneg, er bod y negeseuon a gyhoeddwyd ar y cyfrifon hynny yn aml yn dwyieithog. Gwelwyd enghreifftiau hefyd lle bo'r wybodaeth gyffredinol o fewn y proffil yn uniaith Saesneg neu bod llai o wybodaeth ar y proffil cyfatebol Cymraeg pan oedd gan y sefydliad gyfrifon ar wahân. Yn achos LinkedIn ac Instagram, gwelwyd hefyd bod y proffil corfforaethol yn aml yn uniaith Saesneg ar gyfrifon dwyieithog neu fod llai o wybodaeth ar broffil y cyfrif Cymraeg o'i gymharu â'r cyfrif Saesneg cyfatebol.

Codi ymwybyddiaeth o gyfrifon Cymraeg

3.25 Mae Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1 yn datgan –

“Os yw corff yn penderfynu gweithredu cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân, rhaid iddo godi ymwybyddiaeth o'r cyfrif Cymraeg ar y cyfrif Saesneg cyfatebol yn unol â safonau 81 ac 82. Gall hyn gynnwys corff yn darparu dolen uniongyrchol at y cyfrif Cymraeg ar y cyfrif Saesneg cyfatebol”.

3.26 O'r 65 cyfrif a wiriwyd fel rhan o'r arolwg, roedd 16 ohonynt yn gyfrifon Cymraeg penodol (gyda chyfrif cyfatebol Saesneg ar wahân). O'r 16 cyfrif hynny, dim ond wyth cyfrif Saesneg oedd â dolen yn cyfeirio at y cyfrif Cymraeg.



3.27 O'r 25 cyfrif a wiriwyd ar Facebook, roedd pedwar ohonynt yn gyfrifon Cymraeg penodol. O'r pedwar cyfrif hwnnw, dim ond un oedd yn cynnwys dolen o'r cyfrif cyfatebol Saesneg yn cyfeirio at y cyfrif Cymraeg.

3.28 O'r 14 cyfrif a wiriwyd ar X, roedd tri ohonynt yn gyfrifon Cymraeg penodol. O'r tri cyfrif hwnnw, roedd dau yn cynnwys dolen o'r cyfrif cyfatebol Saesneg yn cyfeirio at y cyfrif Cymraeg.


3.29 O'r 13 cyfrif a wiriwyd ar Instagram, roedd chwech ohonynt yn gyfrifon Cymraeg penodol. O'r chwe chyfrif hynny, roedd pump yn cynnwys dolen o'r cyfrif cyfatebol Saesneg yn cyfeirio at y cyfrif Cymraeg.


3.30 Roedd tri sefydliad yn gweithredu cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân ar LinkedIn. Nid oedd yr un o'r cyfrifon cyfatebol Saesneg yn cyfeirio at y cyfrif Cymraeg yn eu tudalen broffil.

4 Tueddiadau


Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

- 4.1 Dengys yr arolwg bod 17% o'r negeseuon yn cydymffurfio'n rhannol â'r safon tra bod 32% wedi methu â chydymffurfio. Roedd y methiant hwn yn deillio o amryw o ffactorau, ond y rheswm amlycaf oedd bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 4.2 Roedd nifer o sefydliadau yn defnyddio hashnodau fel rhan o'u negeseuon. Gwelwyd rhai enghreifftiau lle nad oedd hashnodau'n rhan o'r testun Cymraeg, a byddai'r hashnodau yn Saesneg yn unig. Yn ogystal, gwelwyd enghreifftiau lle bo dolenni i gyfrifon neu wefannau allanol wedi'u cynnwys o fewn negeseuon Saesneg ond heb eu cynnwys yn y neges gyfatebol Gymraeg. Wrth gynnwys dolenni allanol, dylid sicrhau bod dolenni yn arwain at gynnwys Cymraeg, lle bo hynny ar gael.
- 4.3 Nodwyd hefyd nad oedd y Gymraeg yr un mor hygyrch na gweladwy â'r Saesneg mewn nifer o negeseuon dwyieithog. Gwelwyd enghreifftiau mewn negeseuon dwyieithog lle bo'r testun Cymraeg wedi ei osod o dan y testun Saesneg, gan olygu ar rai platfformau fod angen sgrolio neu glicio ar fotwm i weld y testun Cymraeg yn llawn, fel y dangosir yn yr enghreifftiau isod:





- 4.4 Lle bo sefydliadau â chyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân, gwelwyd sawl enghraifft lle nad oedd y cyfrif Cymraeg â'r un cynnwys a'r Saesneg, gyda llawer mwy o negeseuon a chynnwys ar y cyfrifon Saesneg o gymharu â'r cyfrif Cymraeg. Canlyniad hyn yw bod y rhai hynny sydd yn dewis dilyn y cyfrif Cymraeg yn gweld llai o negeseuon a hysbysiadau â dilynwyr y cyfrif Saesneg.
- 4.5 Yn gadarnhaol, gwelwyd hefyd enghreifftiau lle bo sefydliadau wedi llwyddo i sicrhau bod negeseuon Cymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal drwy bostio negeseuon ar wahân ar un cyfrif dwyieithog. Un o'r sefydliadau hyn oedd Trafnidiaeth Cymru (sydd yn ddarostyngedig i safonau sydd wedi eu gosod ar Weinidogion Cymru). Yn yr enghraifft isod gwelir bod Trafnidiaeth Cymru yn llunio testunau cyfatebol mewn negeseuon ar wahân ac yn eu cyhoeddi yr un pryd:



Hunaniaeth gorfforaethol

- 4.6 Wrth gyflwyno ei hunaniaeth gorfforaethol, gwelwyd bod 58% o'r cyfrifon a wiriwyd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gwelwyd enghreifftiau lle'r oedd logo, enw'r cyfrif, neu'r "*handle*" yn uniaith Saesneg, a lle'r oedd y wybodaeth yn y proffil

yn uniaith Saesneg neu'n cynnwys llai o wybodaeth yn Gymraeg o'i gymharu â'r testun cyfatebol Saesneg.

- 4.7 Rydym yn cydnabod bod cyfyngiadau ar hyd y testun y gellir ei gynnwys yn adran proffil y cyfrifon hyn. Mae hyn yn amlygu'r angen i ystyried y Gymraeg yn fwriadol wrth greu cyfrifon ac wrth lunio'r testun proffil, er mwyn sicrhau bod modd cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol yn Gymraeg. Gwelwyd enghreifftiau lle'r oedd sefydliadau wedi llwyddo i wneud hyn yn effeithiol:



Fideos a chlipiau sain

- 4.8 Mae safon 37 yn datgan –

“Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg”.

- 4.9 Roedd 78 o'r negeseuon a wiriwyd ar draws y 4 platfform yn cynnwys fideos neu glipiau sain yn rhan o'r neges.
- 4.10 Roedd 57 o'r fideos a chlipiau sain a wiriwyd ar gael yn Gymraeg, sydd gyfwerth â 73%.
- 4.11 O'r 57 neges oedd ar gael yn Gymraeg, roedd 25 (44%) yn cyflwyno'r Gymraeg drwy gyfrwng is-deitlau neu droslais.
- 4.12 Mae Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1 yn datgan y gall y defnydd o isdeitlau a throsllais dros glipiau Saesneg arwain at y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 4.13 Rydym yn cydnabod y gall sicrhau siaradwyr Cymraeg ar bob achlysur fod yn heriol, ac mewn rhai amgylchiadau efallai nad yw hynny'n rhesymol nac yn ymarferol – er enghraifft, lle ystyrir bod angen person penodol nad yw'n medru'r Gymraeg er mwyn cyfleu neges yn uniongyrchol. Serch hynny, disgwylir i sefydliadau wneud

ymdrechion rhesymol i ddefnyddio siaradwyr Cymraeg lle bo hynny'n bosib, ac i gyhoeddi fideos yn Gymraeg pan fo modd.

- 4.14 Er bod natur rhai fideos yn benodol ac arbenigol iawn eu cynnwys, gwelwyd ambell i enghraifft lle'r oedd sefydliad wedi llwyddo i gyhoeddi fideo yn Gymraeg yn llwyddiannus, gan gynnwys [fideo](#) gan Adran Safonau Masnach Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn rhybuddio am berygl teganau ffug.
- 4.15 Gwelwyd hefyd enghreifftiau o sefydliadau yn cyhoeddi fideos heb ddeialog gyda thestun yn Gymraeg (neu'n ddwyieithog) yn rhan o'r fideos. Ystyrir bod hyn yn ddull ymarferol ac effeithiol o sicrhau bod y Gymraeg yn weladwy ac yn hygyrch, yn enwedig mewn achosion lle gallai defnyddio siaradwyr Cymraeg fod yn anodd.

5 Casgliadau ac argymhellion

- 5.1 Roedd 68% o'r negeseuon a wiriwyd fel rhan o'r arolwg yn cydymffurfio'n llawn â gofynion safon 58. Mae hyn yn ostyngiad o 25% o ganfyddiadau'r arolwg yn 2024-2025, pan wiriwyd prif gyfrifon yn unig. Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu nad yw'r trefniadau sydd mewn lle i sicrhau cydymffurfiaeth is-gyfrifon yn ddigonol. O ganlyniad, mae angen i sefydliadau adolygu eu prosesau hunan-reoleiddio, gan sicrhau bod unrhyw drefniadau monitro a gwirio yn rhoi'r un lefel o graffu i'r is-gyfrifon ag i'r prif gyfrifon.
- 5.2 Mae'r Gymraeg yn parhau i gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, gyda 46% o'r negeseuon wedi methu â sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r ddyletswydd hon. Nid yw sefydlu cyfrif Cymraeg penodol, nac ychwaith cyhoeddi neges yn Gymraeg, yn gwarantu cydymffurfiaeth. Mae angen ystyried ystod ehangach o ffactorau, gan gynnwys iaith unrhyw fideos neu glipiau sain, y defnydd o hashnodau, gwelededd a hygyrchedd, yn ogystal â sicrhau bod y cynnwys Cymraeg o'r un safon a manylder â'r deunydd Saesneg. Yn gysylltiedig â hyn, dylid gwirio gofynion safonau sy'n ymwneud â deunyddiau cyhoeddusrwydd wrth gyhoeddi cynnwys ar gyfrifon cymdeithasol, yn ogystal â gofynion safon 58.
- 5.3 Wrth sefydlu a chynnal cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, rhaid ystyried gofynion safon 83 sy'n ymwneud â hunaniaeth gorfforaethol yn ogystal â'r safonau sy'n ymwneud â chyfrifon cymdeithasol. Dylid sicrhau nad yw'r logo, enw, handlenni na'r wybodaeth ar y proffil yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 5.4 Mae angen i sefydliadau gymryd camau i sicrhau bod unrhyw gynnwys neu gyfrifon cyfrwng Cymraeg yn cael eu hyrwyddo'n unol â gofynion safonau 81 ac 82. Dylid cynnwys dolenni i'r cyfrif Cymraeg o'u gwefan ac o'r cyfrif Saesneg cyfatebol. Gellir hefyd hyrwyddo'r cyfrifon Cymraeg drwy ymgyrchoedd penodol, gan gyfeirio dilynwy'r y cyfrifon Saesneg at y rhai Cymraeg.
- 5.5 Ar sail canfyddiadau'r arolwg, rydym yn cyflwyno'r argymhellion isod i'r sefydliadau sydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1:

Argymhelliad 1: Trefniadau goruchwyllo

Dylai sefydliadau adolygu eu prosesau hunan-reoleiddio i sicrhau bod holl gyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar bob plattform yn cydymffurfio â gofynion yr holl safonau perthnasol. Dylid sicrhau bod pob aelod o staff sydd yn postio ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn gyfrifol am y cyfrifon a ddefnyddir yn llwyr ymwybodol o ofynion y safonau drwy ddarparu arweiniad a chanllaw ar ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol.

Argymhelliad 2: Hunaniaeth gorfforaethol

Dylai sefydliadau gynnal awdit llawn o'r holl gyfrifon cymdeithasol y maent yn gyfrifol amdanynt i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol y sefydliad gan gynnwys gwirio logos, enwau, handlenni a phroffiliau.

Argymhelliad 3: Cysondeb wrth gyhoeddi negeseuon

Dylai sefydliadau sicrhau, wrth gyhoeddi negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, bod y cynnwys yn Gymraeg yn gyflawn gan gynnwys y testun, lluniau, fideos a chlipiau sain. Dylid hefyd sicrhau bod y cynnwys Cymraeg yr un mor hygyrch ac gweledol â'r cynnwys Saesneg.

Argymhelliad 4: Hyrwyddo cyfrifon Cymraeg

Dylai sefydliadau gymryd camau i hyrwyddo eu cyfrifon Cymraeg drwy gynnwys dolenni clir o'r cyfrifon cyfatebol Saesneg i'r cyfrifon Cymraeg.

Argymhelliad 5: Fideos

Dylai sefydliadau archwilio dulliau amgen o gyhoeddi fideos yn Gymraeg, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol o fewn cynnwys y fideo, lle bo hynny'n ymarferol bosib.

Atodiadau

Atodiad 1: Data'r arolwg

	Is-gyfrif adrannol Facebook	Is-gyfrif adrannol X	Instagram corfforaethol	LinkedIn corfforaethol	Cyfanswm a chanrannau
Nifer y sefydliadau sy'n defnyddio'r platfform	13	8	13	13	
Nifer y cyfrifon a wiriwyd	25	14	13	13	65
Nifer a % y sefydliadau â chyfrif Cymraeg ar wahân	4 (16%)	3 (21%)	6 (46%)	3 (23%)	16 (25%)
Nifer a % y sefydliadau a chyfrif dwyieithog	17 (68%)	10 (71%)	7 (54%)	9 (69%)	43 (66%)
Nifer a % y sefydliadau â chyfrif Saesneg yn unig	4 (16%)	1 (7%)	0	1 (8%)	6 (9%)
Nifer a % y sefydliadau oedd yn cydymffurfio â gofynion hunaniaeth gorfforaethol	8 (32%)	7 (50%)	8 (62%)	4 (31%)	27 (42%)
Nifer y negeseuon a wriwyd	130	80	130	130	470
Nifer a % y negeseuon oedd ar gael yn gwbl Gymraeg	95 (73%)	64 (80%)	116 (89%)	102 (78.5%)	377 (80%)

Nifer a % y negeseuon oedd yn cydymffurfio yn llawn	74 (57%)	63 (79%)	94 (72%)	87 (67%)	318 (68%)
Nifer a % y negeseuon oedd yn cydymffurfio yn rhannol	27 (21%)	3 (4%)	24 (18.5%)	27 (21%)	81 (17%)
Nifer y negeseuon oedd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg (<i>yn cynnwys yn llawn neu yn rhannol</i>)	70 (54%)	27 (34%)	61 (47%)	56 (43%)	214 (46%)

Atodiad 2: Fideos (arweiniad)

Ydi clip fideo sy'n cynnwys isdeitlau neu droslais Cymraeg yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Mae hyn yn dibynnu ar natur a chynnwys y clip dan sylw. Nodir enghraifft o ddwy sefyllfa bosibl yma.

Clip fideo sy'n cynnwys troslais, lle mae geiriau yn cael eu hadrodd dros luniau

Mewn clip fel hwn, mae'r geiriau yn cael eu siarad gan berson tra mae lluniau o rhywbeth arall i'w gweld (hynny yw, nid yw'r person i'w weld). Os yw'r corff yn cynhyrchu clip fideo sy'n cynnwys troslais, a bod y clip fideo yn cael ei ddefnyddio fel fersiwn Gymraeg y clip fideo, gall y corff drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg trwy:

- defnyddio is-deitlau Cymraeg yn hytrach na throslais Cymraeg ar y clip fideo hwnnw; a / neu
- defnyddio troslais Saesneg yn hytrach na throslais Cymraeg ar y clip fideo hwnnw.

Clip fideo sy'n dangos person y gellir ei weld yn siarad


Mewn clip fel hwn, mae person yn cael ei weld yn siarad ac yn mynegi sylwadau/barn am eu profiadau personol.

Os yw'r corff yn cynhyrchu clip o'r fath sy'n dangos person yn siarad, a bod y clip fideo yn cael ei ddefnyddio fel fersiwn Gymraeg y clip fideo, os yw'r fideo yn cynnwys cyfraniad Saesneg gan siaradwr nad yw'n Gymraeg, efallai na fydd defnyddio is-deitlau Cymraeg yn trin Cymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg os:

- ni all unrhyw berson arall wneud cyfraniad cyfatebol i'r cyfraniad hwnnw yn Gymraeg;
- ni fyddai'n ymarferol cynnwys troslais Cymraeg ar gyfer y cyfraniad; a
- mae cyfraniadau a wneir yn Gymraeg fel arfer yn cael eu hisdeitlo yn Saesneg (yn hytrach na chael eu trosleisio yn Saesneg).

Atodiad 3: Rhestr sefydliadau'r arolwg

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont-ar-Ogwr
- Cyngor a Dinas Abertawe
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir y Fflint
- Gweinidogion Cymru
- Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Arolygon gwirio gwefannau hamdden a llyfrgelloedd: Awdurdodau Lleol (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1)



Cynnwys

1	Cyflwyniad	1
2	Methodoleg	2
3	Canfyddiadau	3
4	Tueddiadau	10
5	Casgliadau ac Argymhellion	13
6	Atodiadau	15

1 Cyflwyniad

- 1.1 Eleni, rydym wedi adolygu ein trefniadau ar gyfer monitro a rheoleiddio cydymffurfiaeth sefydliadau cyhoeddus â'u dyletswyddau iaith, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau'r Cynllun Strategol a'r Deilliannau Rheoleiddio a gyhoeddwyd yn 2024-2025.
- 1.2 Roeddem yn awyddus i ddatblygu dulliau monitro a hyrwyddo a fyddai'n rhoi mwy o sicrwydd i ni ynghylch cydymffurfiaeth sefydliadau. Penderfynwyd cynllunio arolygon gwirio i'w cynnal yn chwarterol, gyda chanlyniadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r sefydliadau unigol o fewn yr un chwarter.
- 1.3 Un o fanteision allweddol y dull hwn o fonitro yw bod sefydliadau'n cael gwybod am unrhyw faterion cydymffurfiaeth mewn modd amserol drwy gydol y flwyddyn, gan roi cyfle iddynt weithredu atebion priodol yn brydlon.
- 1.4 Mae gwefannau hamdden a llyfrgelloedd yr awdurdodau lleol wedi'u nodi fel maes blaenoriaeth eleni. Mae ein sylw wedi ei roi i wefannau corfforaethol yr awdurdodau dros y pedair mlynedd diwethaf. Mae nifer cynyddol o sefydliadau bellach yn defnyddio cwmnïau trydydd parti i gynnal y gwasanaethau hyn ar ran yr awdurdodau lleol ac mae'r Comisiynydd wedi derbyn sylwadau am ddefnydd y Gymraeg yn gyffredinol yn y meysydd hyn.
- 1.5 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r arolygon gwirio oedd yn canolbwyntio yn benodol ar is-wefannau awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd. Er na wiriwyd gwefannau y Parciau Cenedlaethol, Gweinidogion Cymru a'r Cydbwyllgorau Corfforedig fel rhan o'r arolwg, mae canfyddiadau'r adroddiad hwn ynghyd â'r argymhellion yn berthnasol i'r holl sefydliadau sydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1 o safbwynt cynnal is-wefannau yn unol â gofynion y safonau.
- 1.6 Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad a rhannu'r canfyddiadau gyda'r sefydliadau yn unigol, bydd disgwyl i bob sefydliad adrodd i ni ymhen tri mis gan nodi'r camau sydd wedi eu rhoi mewn lle i ymateb i'r argymhellion hyn.

2 Methodoleg

- 2.1 Arolygwyd pob awdurdod lleol (22 sefydliad) sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1 ("Rheoliadau Rhif 1") yn ystod mis Hydref 2025.
- 2.2 Mae Rheoliadau Rhif 1, sy'n berthnasol i awdurdodau lleol, yn cynnwys pum safon (52, 53, 54, 55 a 56) sy'n gosod gofynion ar gyfer darparu gwefan yn Gymraeg.
- 2.3 Safonau 52, 55 a 56 sydd wedi'u gosod ar bob awdurdod lleol ac felly'n rhan o'r arolygon.
- 2.4 Mae safon 52 yn nodi:

Rhaid ichi sicrhau –

- (a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg,*
- (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac*
- (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan.*

- 2.5 Mae safon 55 yn nodi:

Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.

- 2.6 Mae safon 56 yn nodi:

Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg.

- 2.7 Yn ychwanegol at y safonau uchod, arolygwyd dwy safon gysylltiedig sef safon 37 (cyhoeddusrwydd a hysbysebu) a safon 83 (hunaniaeth corfforaethol).

- 2.8 Mae safon 37 yn nodi:

Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

- 2.9 Mae safon 83 yn nodi:

Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.


- 2.10 Gwiriwyd deg tudalen yn ymwneud â gwasanaethau hamdden, a deg tudalen yn ymwneud â gwasanaethau llyfrgelloedd ar wefan pob sefydliad.

- 2.11 Nid oedd gan un sefydliad ddeg o dudalennau i'w gwirio ar y wefan hamdden nac ar y wefan llyfrgelloedd.
- 2.12 Yn gyfan gwbl, gwiriwyd 215 o dudalennau hamdden a 214 o dudalennau llyfrgelloedd.

3 Canfyddiadau


- 3.1 Darperir isod drosolwg o ganfyddiadau ein gwaith arolygu mewn perthynas â thudalennau gwe hamdden a llyfrgelloedd yr awdurdodau lleol.

Gwasanaethau Hamdden




- 3.2 Dangosodd canlyniadau'r arolygon fod 85% (183) o'r tudalennau ar gael yn Gymraeg. Roedd 4% o'r tudalennau ddim ar gael o gwbl yn Gymraeg, ac roedd 11% ar gael yn Gymraeg yn rhannol yn unig.
- 3.3 Roedd 41% (88) o'r tudalennau yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ymhlith yr enghreifftiau o driniaeth llai ffafriol roedd dolenni'n cyfeirio at dudalennau Saesneg, a theitlau neu destun Saesneg yn ymddangos ar dudalennau Cymraeg lle dylai fod teitlau a thestun Cymraeg.
- 3.4 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy oedd yr unig awdurdod lleol a lwyddodd i sicrhau nad oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar bob un o'r tudalennau a wiriwyd.


- 3.5 Gwelwyd enghreifftiau o gyfieithu gwael ar rai tudalennau. Er enghraifft, wrth archebu gweithgaredd ar wefan gwasanaeth hamdden, roedd y Saesneg yn nodi 'Book activity', ond roedd y Gymraeg yn nodi 'Gweithgaredd Llyfr' (yn hytrach na 'archebu gweithgaredd'). Enghraifft arall oedd 'Diwrnod yn mynd heibio' ar gyfer 'Day Passes' mewn canolfannau hamdden. Roedd y wefan hon yn cynnwys nodyn yn egluro eu bod yn defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (DA) i gyfieithu cynnwys i'r Gymraeg, ac felly y gallai fod camgymeriadau ar y wefan. Gweler safbwynt y Comisiynydd ar gyfieithu peiranyddol yn adran 5 isod.
- 3.6 Gwelwyd bod 67% o'r tudalennau a wiriwyd yn cydymffurfio'n llawn â safon 52.




- 3.7 Nodwyd bod 96% o'r tudalennau yn cydymffurfio â safon 55. Roedd saith tudalen nad oedd yn cydymffurfio oherwydd nad oedd tudalen gyfatebol ar gael yn Gymraeg.



- 3.8 Roedd 85% o'r tudalennau yn cydydffurfio â safon 56. Ymhlith y gweddill nad oedd yn cydydffurfio neu'n cydydffurfio'n rhannol, gwelwyd enghreifftiau o ddewislenni yn Saesneg, teitlau dewislenni yn Saesneg a diffyg tudalennau Cymraeg.
- 3.9 O safbwynt safon 37 (deunydd cyhoeddusrwydd), dim ond 30 tudalen oedd yn cynnwys deunydd cyhoeddusrwydd ac felly yn berthnasol i'r safon. O'r tudalennau hynny, roedd 60% yn cydydffurfio, 20% ddim yn cydydffurfio a 20% yn cydydffurfio'n rhannol.




- 3.10 Ymhlith yr enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfiaeth roedd teitlau uniaith Saesneg ar fideos heb leisiau, a baneri cyhoedduswydd uniaith Saesneg.
- 3.11 Roedd cydymffurfiaeth â'r safon yn ymwneud â hunaniaeth gorfforaethol (safon 83) yn gymharol well, gyda 88% o'r tudalennau perthnasol yn cydymffurfio. Nodwyd 12 tudalen (6%) nad oedd yn cydymffurfio, oherwydd enghreifftiau o enwau neu logo uniaith Saesneg, neu logo lle'r oedd y Saesneg uwchben y Gymraeg. Roedd 6% arall wedi'u nodi fel cydymffurfio'n rhannol.




Llyfrgelloedd


- 3.12 Dangosodd canlyniadau'r arolygon fod 97% (209) o'r tudalennau ar gael yn Gymraeg. Roedd 1% o'r tudalennau ddim ar gael o gwbl yn Gymraeg, ac roedd 2% ar gael yn rhannol.




- 3.13 Roedd 33% (70) o'r tudalennau yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ymhlith yr enghreifftiau roedd teitlau a thestun Saesneg yn ymddangos ar dudalennau Cymraeg lle dylai fod teitlau a thestun Cymraeg, misoedd y flwyddyn yn Saesneg er bod y dyddiau'n Gymraeg, a dolenni'n arwain at fersiynau Saesneg er bod fersiynau Cymraeg ar gael.
- 3.14 Cyngor a Dinas Abertawe, Cyngor Caerdydd a Cyngor Sir Fynwy oedd yr unig awdurdodau lleol a lwyddodd i sicrhau nad oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar bob un o'r tudalennau a wiriwyd.
- 3.15 Gwelwyd hefyd enghreifftiau o gyfieithu gwael. Un enghraifft oedd ar wefan Borrowbox – gwasanaeth digidol sy'n cynnig e-lyfrau ac e-lyfrau llafar i'w lawrlwytho a'u darllen neu wrando arnynt ar gyfrifiadur neu ddyfeisiau symudol. Mae'r gwasanaeth ar gael am ddim i aelodau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru (a'r DU), ac yn cael ei ddefnyddio gan ran helaeth o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod y gwallau'n effeithio ar bob awdurdod sy'n ei ddefnyddio. Ymhlith yr enghreifftiau roedd:
- “Unlimited copies - everyone can borrow today!/ Copïau diderfyn - gall pawb”.
- 3.16 Gwelwyd bod 85% o'r tudalennau a wiriwyd yn cydymffurfio'n llawn â safon 52.




- 3.17 Nodwyd bod 95% o'r tudalennau yn cydydffurfio â safon 55. Yr unig dudalen nad oedd yn cydydffurfio oedd oherwydd nad oedd tudalen gyfatebol ar gael yn Gymraeg.



- 3.18 Roedd 98% o'r tudalennau yn cydydffurfio â safon 56. Ymhlith y gweddill nad oedd yn cydydffurfio neu'n cydydffurfio'n rhannol, gwelwyd enghreifftiau o ddewislenni a theitlau dewislenni yn Saesneg.
- 3.19 O safbwynt safon 37 (deunydd cyhoeddusrwydd), dim ond 11 tudalen oedd yn cynnwys deunydd cyhoeddusrwydd ac felly yn berthnasol i'r safon. O'r tudalennau hynny, roedd 73% yn cydydffurfio, 18% ddim yn cydydffurfio a 2% yn cydydffurfio'n rhannol. Roedd enghreifftiau o ddiffyg cydydffurfiaeth yn cynnwys infograffeg uniaith Saesneg ar fideos.



3.20 Mae cydydffurfiaeth y sefydliadau gyda'r safon yn ymwneud â hunaniaeth gorfforaethol (safon 83) yn well gyda 97% o'r tudalennau perthnasol yn cydydffurfio. 4 tudalen (2%) oedd yn methu cydydffurfio. Roedd rhain oherwydd enghreifftiau o enwau a logo uniaith Saesneg neu logo gyda'r Saesneg uwchben y Gymraeg. Roedd 1% wedi'u nodi fel cydydffurfio'n rhannol.




4 Tueddiadau

Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

- 4.1 Dengys yr arolygon bod 91% o'r tudalennau a wiriwyd yn yr adrannau hamdden a llyfrgelloedd ar gael yn Gymraeg. Mae'r canlyniadau hyn yn galonogol, ond mae gwaith pellach i'w wneud i sicrhau cydymffurfiaeth lawn.
- 4.2 Er hynny, roedd 37% o'r tudalennau hynny yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 4.3 Ymhlith yr enghreifftiau roedd botymau dewis iaith nad oedd yn gweithio, neu wedi'u gosod mewn mannau nad oedd yn amlwg i'r defnyddiwr.
- 4.4 Nodwyd hefyd enghreifftiau o enwau a logo uniaith Saesneg, neu'r Saesneg yn ymddangos uwchben y Gymraeg. Mae sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn hawdd eu hadnabod yn hanfodol i'w defnyddio; felly, byddai gwneud y Gymraeg yr un mor amlwg a'r Saesneg yn gam allweddol.
- 4.5 Gwelwyd nifer o achosion lle'r oedd Saesneg yn ymddangos ar dudalennau Cymraeg, megis dyddiadau, teitlau, dewislenni, amserlenni a chalendrau gyda misoedd y flwyddyn yn uniaith Saesneg er bod y dyddiau'n Gymraeg.
- 4.6 Nodwyd hefyd fod dolenni ar dudalennau Cymraeg yn arwain at dudalennau Saesneg er bod fersiynau Cymraeg ar gael, a bod dolenni ar dudalennau Saesneg nad oedd yn ymddangos ar yr ochr Gymraeg.
- 4.7 Wrth ddefnyddio cyfeiriadau ar wefannau, e.e. cyfeiriad llyfrgell neu ganolfan hamdden, gwelwyd defnydd o gyfeiriadau Saesneg yn unig. Roedd sawl enghraifft hefyd lle'r oedd y dudalen Saesneg wedi'i diweddarau, ond nad oedd y dudalen Gymraeg wedi'i diweddarau ers peth amser.

Hunaniaeth gorfforaethol

- 4.8 Wrth gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol, gwelwyd bod 7% o'r tudalennau a wiriwyd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Roedd y rhesymau hyn yn gyffredin ar draws y sefydliadau nad oedd yn cydymffurfio: enw a logo uniaith Saesneg ar y gwasanaeth dan sylw oedd y prif reswm, tra bod achosion eraill yn cynnwys y Saesneg yn ymddangos uwchben y Gymraeg neu wedi'i uwch oleuo'n fwy amlwg.
- 4.9 Gwelwyd enghraifft gadarnhaol gan Gyngor Sir y Fflint, lle'r oedd y sefydliad wedi llwyddo i ddefnyddio enw Cymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg.



Fideos a chlipiau sain


4.10 Mae safon 37 yn datgan:

Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- 4.11 Gwelwyd naw fideo ar y tudalennau a wiriwyd. Ymhlith y rhain, roedd un fideo yn uniaith Saesneg, un fideo yn cynnwys llais Saesneg ac is deitlau Cymraeg, a dau fideo yn cynnwys testun Saesneg yn unig. Roedd y gweddill yn fideos heb ddeialog, gyda cherddoriaeth gefndirol yn unig.
- 4.12 Mae ein Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1 yn nodi y gall defnyddio isdeitlau neu droslais dros gliplau Saesneg arwain at y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 4.13 Gwelwyd un enghraifft o fideo uniaith Saesneg yn cynnwys plentyn ysgol yn siarad, heb fideo cyfatebol Cymraeg ar gael. Rydym yn cydnabod y gall sicrhau siaradwyr Cymraeg ar bob achlysur fod yn heriol, ac mewn rhai amgylchiadau efallai nad yw hynny'n rhesymol nac yn ymarferol – er enghraifft, lle bo angen person penodol nad yw'n medru'r Gymraeg er mwyn cyfleu neges benodol. Serch hynny, disgwylir i sefydliadau wneud ymdrechion rhesymol i ddefnyddio siaradwyr Cymraeg lle bo hynny'n bosibl, ac i gyhoeddi fideos yn Gymraeg pan fo modd. Yn yr achos hwn, credwn na fyddai yn afresymol disgwyl i'r awdurdod dan sylw i wneud fideo cyfatebol gyda phlentyn mewn ysgol cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol.

Platfformau Digidol Gwasanaethau Llyfrgelloedd

- 4.16 Mae'r mwyafrif o sefydliadau'n defnyddio Borrowbox a Spydus ar gyfer cynnal eu gwasanaethau llyfrgelloedd. Er bod y tudalennau hyn ar gael yn Gymraeg, maent yn cynnwys yr un gwallau ar draws yr holl sefydliadau. Un enghraifft o hyn yw'r Calendr Digwyddiadau ar Spydus sy'n dangos dyddiau'r wythnos yn Gymraeg ond yn cadw enwau'r misoedd yn Saesneg yn unig:



5 Casgliadau ac Argymhellion

- 5.1 Roedd 60% o'r negeseuon a wiriwyd fel rhan o'r arolwg yn cydymffurfio'n llawn â gofynion safon 52. Mae hyn yn ostyngiad o 19% o gymharu â chanfyddiadau'r arolwg yn 2024- 2025, pan wiriwyd tudalennau gwefannau corfforaethol yn unig. Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu nad yw'r trefniadau presennol ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth is-wefannau yn ddigonol. O ganlyniad, dylai sefydliadau adolygu eu prosesau hunan-reoleiddio, gan sicrhau bod trefniadau monitro a gwirio yn rhoi'r un lefel o graffu i'r is-wefannau ag i'r prif wefan.
- 5.2 Mae'r Gymraeg yn parhau i gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, gyda 37% o'r tudalennau wedi methu â sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r ddyletswydd hon. Nid yw cyhoeddi tudalen gwefan yn Gymraeg yn gwarantu cydymffurfiaeth. Mae angen ystyried ystod ehangach o ffactorau, gan gynnwys dolenni i dudalennau neu wefannau eraill, baneri ar ben neu waelod tudalennau, teitlau adrannau, iaith unrhyw fideos neu glipiau sain, gweledd a hygyrchedd y cynnwys Gymraeg, yn ogystal â sicrhau bod y cynnwys Cymraeg yn gyfredol ac o'r un safon â'r deunydd Saesneg. Yn gysylltiedig â hyn, dylid gwirio gofynion safonau sy'n ymwneud â deunyddiau cyhoedduswydd wrth gyhoeddi tudalennau gwefan, yn ogystal â safon 52.
- 5.3 Wrth gyhoeddi a chynnal tudalennau gwefan, rhaid ystyried gofynion safon 83 sy'n ymwneud â hunaniaeth gorfforaethol yn ogystal â'r safonau sy'n berthnasol i dudalennau gwefan. Dylid sicrhau nad yw'r logo nac enw'r sefydliad yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 5.4 Fel y nodwyd yn 3.4 uchod, gwelwyd enghreifftiau o gyfieithu gwael a'r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial (DA) i gynnal tudalennau Cymraeg. Gall defnyddio modelau DA i gyfieithu dogfennau, gwefannau neu gyfathrebiadau heb drefniadau cadarn i wirio cywirdeb arwain at wallau ieithyddol neu gamgymeriadau sy'n tanseilio safonau'r Gymraeg ac yn lleihau ymddiriedaeth yn y gwasanaethau. Mae'n hanfodol bod sefydliadau'n sicrhau bod ganddynt drefniadau cadarn i fonitro, gwirio ac adolygu unrhyw gyfieithiadau peirianyddol gan swyddog cymwys cyn eu cyhoeddi.
- 5.5 Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi [datganiad polisi rheoleiddiol](#) newydd sy'n amlinellu disgwyliadau clir ar sefydliadau sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial (DA) wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae'r datganiad yn pwysleisio bod rhaid i dechnolegau newydd gynnal a hyrwyddo'r Gymraeg, ac nad yw'r defnydd ohonynt yn esgus dros fethu â chydymffurfio â dyletswyddau iaith Gymraeg.
- 5.6 Ar sail canfyddiadau'r arolwg, cyflwynir yr argymhellion isod i'r sefydliadau sydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1:

Argymhelliad 1: Trefniadau goruchwyllo

Dylai sefydliadau adolygu eu prosesau hunan-reoleiddio i sicrhau bod is-wefannau yn cydymffurfio â'r holl safonau perthnasol. Dylid darparu arweiniad a chanllawiau ymarferol i bob aelod o staff, gan gynnwys trydydd partïon sy'n gyfrifol am wefannau

neu dudalennau adrannau, er mwyn sicrhau eu bod yn llwyr ymwybodol o'r gofynion a sut i'w bodloni.

Argymhelliad 2: Hunaniaeth gorfforaethol

Dylai sefydliadau gynnal awdit llawn o'r holl wefannau y maent yn gyfrifol amdanynt i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol, gan gynnwys gwirio logos ac enwau.

Argymhelliad 3: Cysondeb wrth gyhoeddi neu ddiwygio tudalennau

Dylai sefydliadau sicrhau bod tudalennau Cymraeg yr un mor gyfredol â'r rhai Saesneg. Dylid sicrhau bod gweithdrefnau cadarn mewn lle i atal cyhoeddi neu ddiwygio tudalen Saesneg heb wneud yr un camau ar gyfer y dudalen Gymraeg gyfatebol.

Argymhelliad 4: Cyfieithu

Dylai sefydliadau sicrhau bod prosesau cadarn mewn lle i wirio safon a chywirdeb cyfieithiadau. Lle defnyddir cyfieithu peiranyddol neu DA, rhaid i'r cynnwys gael ei wirio gan swyddog cymwys cyn ei gyhoeddi.

Argymhelliad 5: Fideos

Dylai sefydliadau archwilio dulliau amgen o gyhoeddi fideos yn Gymraeg, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol o fewn cynnwys y fideo lle bo hynny'n ymarferol bosib.

Argymhelliad 6: Cydweithio

Dylai sefydliadau sy'n defnyddio platfformau Borrowbox a Spydus gydweithio â'r cwmnïau hyn i roi camau mewn lle i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r safonau.

6 Atodiadau

Atodiad 1: Data'r arolwg

	Tudalennau Hamdden	Tudalennau Llyfrgelloedd
Nifer y tudalennau a wiriwyd	215	214
Nifer a % y tudalennau oedd ar gael yn Gymraeg	183 (85%)	209 (97%)
Nifer a % y tudalennau oedd ar gael yn rhannol yn Gymraeg	23 (11%)	3 (2%)
Nifer a chanran y tudalennau oedd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	88 (41%)	70 (33%)
Nifer a chanran y tudalennau perthnasol oedd yn cydymffurfio â safon 37	18 (60%)	8 (73%)
Nifer a chanran y tudalennau perthnasol oedd yn cydymffurfio â safon 52	144 (67%)	181 (85%)
Nifer a chanran y tudalennau perthnasol oedd yn cydymffurfio â safon 55	207 (97%)	204 (95%)
Nifer a chanran y tudalennau perthnasol oedd yn cydymffurfio â safon 56	183 (85%)	211 (98%)
Nifer a chanran y tudalennau perthnasol oedd yn cydymffurfio â safon 83	167 (88%)	197 (97%)

Atodiad 2: Rhestr sefydliadau'r arolwg

- Cyngor Abertawe
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Caerdydd
- Cyngor Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Benfro
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Sir Ynys Môn